

Cofnodion

Cyfarfod 4ydd o Ebrill, 2018

Presennol: Y Maer Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Sharon Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Alun Price, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croeso:** Croesawyd pawb ac estynnwyd croeso cynnes iawn i Aron Williams a Huw Jones fel ymwelwyr o Ysgol y Berwyn. Croesawyd Rob Green o Gyfoeth Naturiol Cymru ac A Arrowsmith yn gwmni iddo. Cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Dilys Evans yn ei phrofedigaeth ddiweddar.
2. **Cyflwyniad:** Soniodd y peiriannydd Rob Green fod CNC yn gwneud arolwg o rai argloddiau ar argaeau er mwyn profi eu diogelwch. Roedd ganddo gonsyrn am ddigonolrwydd yr arglawdd i Llyn Tegid pe byddai digwyddiad arswydus (ond annhebygol) yn digwydd. Dywedodd nad rheolaeth gorlifant oedd hwn ac na fyddai unrhyw newid i'r sustem gatiau dŵr.

Mae gwaith yn cael ei wneud i ystyried pa adrannau o'r arglawdd sydd angen eu cryfhau; mae'r gwaith yn ystyried yr arglawdd ar hyd lan Llyn Tegid, lawr o Bont Mwnwgl y Llyn a thu nol i'r Parc Menter at bont Tryweryn.

Mae'n rhagweld tri opsiwn yn deillio o'r archwilio:

- codi'r arglawdd 2 medr;
- codi'r arglawdd ond yn is na 2 medr a chynnwys wal i chwalu ergydion y tonnau;
- cryfhau'n gyffredinol, gan gynnwys yr ochrau sydd ddim yn cyffwrdd y dŵr.

Addawodd y byddai'n egluro i'r cyhoedd ar ôl i'r dewis gael ei wneud. Dywedodd ei fod yn ymwybodol o ffactorau cymdeithasol, ardaloedd gwarchod yr amgylchfyd, llwybrau a gweithgareddau dwr, yn ogystal â ffactorau economaidd.

Cafwyd cyfle i'w holi a dywedodd nad oedd yn rhagweld y byddai llawer iawn o newid, ond y byddai diogelwch yr argloddiau'n gwella. Wrth ateb mwy o gwestiynau'r Cynghorwyr, dywedodd mai meini fyddai ar du blaen yr arglawdd. Holwyd a fyddai'r gwaith hwn yn diogelu'r dref rhag gorlifant ac atebodd Na fyddai. Pan holwyd pam felly bod y gwaith yn cael ei wneud o gwbl, atebodd ei fod yn angenrheidiol o dan y gyfraith. Ni fyddai hyn yn arbed yr ardal rhag gorlifant.

Dywedodd fod pobl y trê'n bach yn hapus i'r gwaith fynd ymlaen ond fe allai'r cynlluniau achosi mwy o gostau i Lywodraeth Cymru. Cytunodd nad oedd ymgynghori wedi bod gyda'r Cynghorau Cymuned eraill ond dywedodd byddai'n cysylltu gyda nhw. Bydd cyfle i'r cyhoedd alw mewn i weld y cynlluniau ym Mehefin. Yn y cyfamser cyfeiriodd pawb at wefan Cyfoeth Naturiol Cymru sef naturalresources.wales a theipio mewn LLYN TEGID. Disgwylir cyflawni'r gwaith yn Haf 2019 Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad ac i Mr Arrowsmith am ei gyfraniad yntau.

3. Ymddiheuriadau: Tony Parry ac Edith Roberts.

4. Cyhoedd: Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

5. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
6. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 8fed o Fawrth, 2018 .
7. **Materion y Clerc:** **Eitem 13:** Adroddodd y Clerc iddi dderbyn cyngor gan Keith O'Brien o Drawsfynydd am lanhau'r golofn, a chyngor pellach gan Adran Cadw ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae cais am dderbyn adroddiad ar ddiogelwch y gofgolofn wedi ei anfon eto i Gyngor Gwynedd ond nid oes ymateb wedi dod. Cytunwyd i ofyn eto am adroddiad arbenigol gan fod pryder fod ffrâm haearn mewnol y gofgolofn yn breuo. Cytunwyd i dynnu sylw'r Aelod Cynulliad, Dafydd Elis-Thomas, pe na fyddai adroddiad Cyngor Gwynedd yn dod i law.
- Eitem 15:** Trafodaeth ar glirio eira o'r pafin: darllenwyd cyngor cyffredinol y Llywodraeth yn dweud na fyddai neb yn cael ei erlyn pe byddai'n clirio rhew ac eira o flaen ei eiddo'n ofalus. Cytunwyd i gael trafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf.
8. **Cyngor Gwynedd:** Ni dderbyniwyd Adroddiad.
9. **Toiledau Cyhoeddus:** Nid ydyw'n ymddangos fod Cyngor Gwynedd wedi gwneud gwaith uwchraddio a chytunwyd i holi'r Cynghorydd Dilwyn Morgan ymhellach.
10. **Lloches bws:** Ar ôl astudio 3 chynnig o brisiau, cytunwyd fod y cwmni o Gymru, sef BSL yn cynnig y pris gorau. Derbyniodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan sicrhad na fyddai Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu gosod y lloches ac felly awdurdodwyd y Clerc i wneud cais cynllunio i Barc Cenedlaethol Eryri. Cytunodd Alun Price i fwrw golwg dros y cais.
11. **Nadolig:** Cytunwyd i drafod ymhellach efo'r Cynghorydd Dilwyn Morgan, gan ystyried anfon bil mewn am y goleuadau Nadolig a ddifrodwyd gan NMWTRA.
12. **Materion Cynllunio:**
- i. Cymeradwywyd cais NP5/53/LB75P i dynnu offer o adeilad rhestredig Banc Barclays - er bod y gwaith wedi ei gyflawni cyn i'r cais ddod i law.
 - ii. Derbyniwyd gwybodaeth am newidiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol adolygedig Eryri 2016-31.
13. **Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol; cytunwyd i dalu TWE a'r cyflog.
14. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr. Trefnwyd i glirio gweddill eiddo'r Cyngor o'r trydydd llawr a chytunwyd o ofyn i Gwmni Pum Plwy Penllyn a oedd ganddynt ddiddordeb mewn arddangos y map.
15. **Un Llais Cymru:** Bydd cynrychiolaeth y Cyngor ar y Pwyllgor Ardal yn codi yn y Cyfarfod Blyneddol mis nesaf. (Cyfarfod nesaf yn Llanbedr ar 23/5/18).
16. **Gohebiaeth:**
- i. Derbyniwyd llythyron o ddiolch am gyfraniadau.
 - ii. Rhoddwyd ystyriaeth i gais hwyr am arian; dywedodd y Maer y byddai o bosib yn gallu gwneud cyfraniad o Gronfa'r Maer.

iii. Ystyriwyd neges gan Ohebydd “Y Cyfnod”. Er y dymuniad i gefnogi, cytunwyd nad ydyw mewn trefn i’r Cyngor Tref gyfrannu tuag at fusnesau.

11. Asedau’r Cyngor: derbyniwyd adroddiad bod eu cyflwr yn foddhaol. Dywedodd John Caradog Williams y byddai’n holi am gyflwr ffrâm yr hysbysfwrdd ar Y Domen.

12. Materion lleol y Cynghorwyr Tref

Derbyniwyd gwybodaeth fod coed helyg wedi eu teneuo wrth y llyn er mwyn annog yr hesg i dyfu. Diolchwyd i CNC am y gwaith trwsio wrth faes parcio’r Clwb Rygbi.

Mae problemau parcio yn parhau wrth Y Parciau – cytunwyd i roi’r mater ar Agenda’r cyfarfod nesaf.

Tynnir sylw Cynghorydd Dilwyn Morgan at y dŵr sy’n cronni ar y ffordd wrth y mil-feddygfa.

Roedd pryderon am oryrru wrth Byd Mary Jones, a chytunwyd i anfon at Gyngor Cymuned Llanycil i gynnig cefnogaeth Cyngor Tref Y Bala pe byddent yn dymuno cefnogaeth ar y mater.

Dywedwyd fod parcio wrth y biniau ail-gylchu wedi gwella’n ddiweddar ar ôl sawl blwyddyn o ohebu ac ymgyrchu gan Gyngor Tref Y Bala gyda Cake Crew a Chyngor Gwynedd; roedd y Cynghorwyr yn falch fod y datrysiad a gynigwyd ganddynt wedi ei dderbyn o’r diwedd.

Mae Grŵp Cynefin yn gweithredu ar y broblem o ordyfiant wrth Ro Wen.

Wrth gloi, cyhoeddodd Y Maer ei bod yn rhoi’r gorau i’w sedd ar y Cyngor oherwydd ymrwymadau niferus. Diolchodd i bawb ac yn arbennig i’r Dirprwy Faer am ei chefnogaeth. Bydd cyfle eto i ddiolch ac i ffarwelio’n ffurfiol; yn y cyfamser bydd y Clerc yn cychwyn ar y broses ffurfiol ar gyfer llenwi’r sedd. Diolchodd hefyd i’r ddau ymwelydd o Ysgol y Berwyn am ddangos diddordeb mewn gweithdrefnau dinesig a democratiaeth leol ar waith, ac am eu cyfraniadau i’r tradodaethau. Dymunwyd y gorau iddynt yn eu gyrfaeodd.

Amser gorffen: 9.00